OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 116

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

## RHAN 3

GORFODI

**Gorfodi darpariaethau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**

**22.** I'r graddau y gwneir unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, bydd y ddarpariaeth honno'n orfodadwy fel pe bai wedi ei gwneud o dan y darpariaethau hynny yn Rhan IV o'r Ddeddf y gwneir darpariaethau eraill y Rheoliadau hyn oddi tanynt, a bydd darpariaethau'r Rhan honno yn gymwys yn unol â hynny.